

Ardaloedd Menter Mynd ymhell?

Mai 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

.....
Ffynhonnell y ddelwedd: Esri, DigitalGlobe, GeoEye, Earthstar Geographics, CNES/Airbus DS, USDA, USGS, AeroGRID, IGN a Chymuned Defnyddwyr GIS
.....

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru/SeneddESS**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddESS@cynulliad.cymru**

Twitter: **@SeneddESS**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Ardaloedd Menter

Mynd ymhell?

Mai 2018



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 28 Mehefin i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): datblygu economaidd; trafndiaeth; seilwaith; cyflogaeth; sgiliau; a gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

Cadeirydd y Pwyllgor:



Russell George AC
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Hefin David AC
Llafur Cymru
Caerffili



Vikki Howells AC
Llafur Cymru
Cwm Cynon



Mark Isherwood AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Adam Price AC
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



David J Rowlands AC
UKIP Cymru
Dwyrain De Cymru



Lee Waters AC
Llafur Cymru
Llanelli



Joyce Watson AC
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion.....	7
1. Crynodeb o ganfyddiadau'r Pwyllgor.....	9
Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r Pwyllgor.....	9
2. Y cefndir.....	12
Ymchwiliadau blaenorol.....	12
Ardaloedd Menter yn y 1980au.....	12
3. Trosolwg.....	14
Diben ac amcanion.....	14
Creu'r Ardaloedd Menter.....	15
Cymhellion.....	15
Llywodraethu.....	18
Unedau a swyddfeydd.....	20
Cynllunio.....	21
4. Gwerth am arian.....	22
Tablau data.....	22
Monitro.....	23
5. Marcio'r Ardaloedd Menter.....	25
Ynys Môn.....	25
Canol Caerdydd.....	26
Glannau Dyfrdwy.....	28
Glynebwy.....	29
Dyfrffordd y Ddau Gleddau.....	30
Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan.....	31
Port Talbot.....	32
Eryri.....	33

6. Y camau nesaf	35
Dyfodol yr Ardaloedd Menter yng Nghymru	35
Ardaloedd Menter a'r dull rhanbarthol o ddatblygu economaidd	36
Atodiad 1	37
Atodiad 2	38

Rhagair y Cadeirydd

Mae'r ystadegau ar gyfer wyth Ardal Fenter Cymru yn dra diddorol. Er mai'r un enw sydd i'r wyth ardal, nid oes iddynt fawr ddim arall yn gyffredin.

Barnwyd mai da o beth fyddai adolygu'r ardaloedd bum mlynedd ar ôl iddynt (y mwyafrif) gael eu sefydlu. Roedd sôn y byddent yn hwb i swyddi a thwf. A fu llwyddiant yn hynny o beth, ai peidio?

Ysyaeth, nid yw'r ateb yn syml. O ran creu swyddi, nid oes fawr o dystiolaeth eu bod wedi trawsnewid economi Cymru. Mae pob un o'r Ardaloedd Menter wedi wynebu heriau gwahanol ac amgylchiadau lleol gwahanol. Mae'n anochel, felly, fod y canlyniadau'n amrywio.

Defnyddiodd Ysgrifennydd y Cabinet, Ken Skates, ei sesiwn gerbron y Pwyllgor i gyhoeddi cyfres o newidiadau i'r ffordd y bydd yr Ardaloedd Menter yn gweithredu. Mae wedi mapio dyfodol yr ydym yn ei gefnogi'n rhannol, ond mae meysydd hefyd lle dylai ail-ystyried, yn ein barn ni.

Mae rhywfaint o apêl mewn uno Ardaloedd Menter Ynys Môn ac Eryri. Mae'r ddwy ardal yn dibynnu ar ddatblygiadau pŵer niwclear sydd y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru; mae'r ddwy wedi eu lleoli yn y Gogledd-orllewin. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r uno hwn gymylu'r ffocws penodol ar yr heriau gwahanol iawn y mae'r ddwy ardal yn eu hwynebu. Mae ffordd arall ymlaen yn bosibl.

Yn achos Ardal Fenter Port Talbot, mae'r adolygiad hwn wedi dod yn rhy fuan i fod yn ystyrllon. Yn ei hachos hi, rydym yn gobeithio bod y broses hon, yn rhannol, wedi tynnu sylw at y modd y mae'n cyflwyno adroddiadau am ei llwyddiannau a'i huchelgeisiau wrth iddi ddatblygu ei chynlluniau.

Rydym hefyd yn disgwyl am gadarnhad gan Ysgrifennydd y Cabinet y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati, fel o'r blaen, i lunio adroddiadau blynyddol, a darparu data clir ar gyfer pob ardal, sy'n cynnwys dadansoddiad manwl o'r cymorth a roddwyd i gwmnïau a gefnogir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan Ardaloedd Menter.

Hoffwn ddiolch i holl Gadeiryddion yr Ardaloedd Menter am eu cydweithrediad. Diolch yn arbennig i John Idris-Jones a Neil Rowlands am eu cymorth wrth drefnu ymweliadau â'u hardaloedd.

Cyfres o arbrofion mewn gwahanol leoedd fu'r Ardaloedd Menter, ac maent yn haeddu astudiaeth bellach wrth iddynt barhau am y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r gwersi clir - sef bod manteision go iawn i allu adnabod eich cryfderau, a dod â phartneriaid at ei gilydd i drafod gweledigaeth a rennir gan bawb - yn werthfawr yn y dull rhanbarthol newydd o ddatblygu economaidd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddatblygu.

A handwritten signature in black ink that reads "Russell George". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping initial 'R' and a long horizontal flourish underneath the name.

Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Argymhellion

Argymhelliad 1. Er na ddefnyddiwyd y Lwfansau Cyfalaf Uwch hyd yn hyn, gallant fod yn becyn deniadol. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Drysorlys EM ymestyn y lwfansau hyn am bum mlynedd arall a chefnogi'r ardaloedd i wneud y defnydd gorau o'r lwfansau hyn..... Tudalen 18

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru edrych yn strategol ar yr eiddo masnachol a'r unedau diwydiannol sydd ar gael a gweithio gyda Llywodraeth Leol i sicrhau bod arian ar gael ar gyfer ardaloedd lle mae angen datblygu unedau addas.....Tudalen 21

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru lunio adroddiadau blynyddol ar yr Ardaloedd Menter, fel yr arferai ei wneud, a darparu data clir ar gyfer pob ardal. Dylai gynnwys dadansoddiad manwl o'r cymorth a roddwyd i gwmnïau a gefnogir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ganddi. Hefyd, dylid llunio adroddiadau mwy tryloyw am y buddsoddiad ym mhob un o'r Ardaloedd Menter, gyda data cywir ar gyfer buddsoddiad penodol yr Ardaloedd nad yw'n cynnwys gwariant ehangach Llywodraeth Cymru..... Tudalen 23

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu data blynyddol wedi'u dadgyfuno ar gyfer swyddi a grëwyd, a ddiogelwyd ac a gynorthwywyd ymhob ardal..... Tudalen 24

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru wneud yn eglur beth yw ei blaenoriaethau ar gyfer yr Ardaloedd Menter, gan gyhoeddi targedau blynyddol clir, a dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymrwymo i gyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig yn amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar gyllido, rolau a chyfnod gweithredol yr Ardaloedd Menter yn y dyfodol..... Tudalen 24

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw ddull rhanbarthol o ran datblygu economaidd, ar gyfer bob rhanbarth unigol neu ardal leol: yn glir a realistig; yn ddigon manwl i roi dealltwriaeth o'r heriau a wynebir; a bod data monitro manwl, agored, tryloyw a phriodol i'w cefnogi..... Tudalen 24

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried ei bwriad arfaethedig i uno Byrddau Ynys Môn ac Eryri..... Tudalen 26

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru osod cyfeiriad clir o ran beth y mae'n disgwyl i Fwrdd Ardal Fenter Port Talbot ei gyflawni, ac amserlen glir i'w wneud, fel y gellir dod â'r Bwrdd i ben pan fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau.... Tudalen 33

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r berthynas rhwng y cyfarwyddwyr rhanbarthol newydd sy'n arwain datblygu economaidd a'r Ardaloedd Menter, a'r gymuned fusnes mewn ardaloedd lle nad yw'r Byrddau bellach yn bodoli.....Tudalen 36

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ymhle y caiff trefniadau llywodraethu eraill eu sefydlu (Glynebwy, Glannau Dyfrdwy), manylion llawn y ffordd y bydd y cyrff newydd yn gweithredu, sut y byddant yn parhau â gwaith Byrddau'r Ardaloedd Menter, a'r dyletswyddau gwahanol a fydd ganddynt.
.....Tudalen 36

1. Crynodeb o ganfyddiadau'r Pwyllgor

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r Pwyllgor

- 1.** Mae'r dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor yn peintio darlun cymysg o berfformiad ar draws yr wyth Ardal Fenter yng Nghymru. O'r herwydd bu'n eithaf heriol dod i gasgliad eang am effeithiolrwydd y polisi fel cyfanbeth.
- 2.** Da o beth, yn y lle cyntaf, fyddai ystyried man cychwyn y polisi yng Nghymru. Ymateb brys oedd y polisi i gyhoeddiad Llywodraeth y DU ym mis Mawrth 2011 y byddai'n creu Ardaloedd Menter yn Lloegr. Symudodd Llywodraeth Cymru yn ei blaen yn gyflym i greu saith Ardal Fenter yng Nghymru erbyn mis Ionawr 2012, a nod penodol pob un ohonynt oedd creu swyddi a thwf.
- 3.** Roedd yr ardaloedd a ddewiswyd gan Lywodraeth Cymru yn adlewyrchu amrywiaeth o ddulliau. Dewiswyd rhai, er enghraifft Caerdydd a Glannau Dyfrdwy, i fanteisio ar gryfderau economaidd amlwg, tra bod eraill, fel Ynys Môn ac Eryri, wedi'u creu i fynd i'r afael â heriau lleol mawr.
- 4.** Mae cwestiwn dilys ynghylch a oedd angen Ardaloedd Menter mewn gwirionedd yn rhai o'r ardaloedd a ddewiswyd gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig yng Nghaerdydd lle clywodd y Pwyllgor fod yr ardal yn "gwthio drws oedd eisoes yn agored" mewn termau economaidd.
- 5.** I'r gwrthwyneb, clywodd y Pwyllgor hefyd gan Gadeirydd Bwrdd Ardal Fenter Eryri eu bod wedi sylweddoli'n fuan iawn, o ystyried yr heriau a wynebai eu hardal, na fyddent fyth yn debygol o allu cyflawni'n sylweddol o ran twf neu swyddi, o leiaf yn y tymor byr i ganolig. Yn hytrach, hoeliodd y Bwrdd ei sylw ar ystyried y cyfleoedd i ddatblygu'r ardal dros y tymor hir. Clywodd y Pwyllgor fod nifer o ardaloedd eraill hefyd mewn sefyllfa debyg.
- 6.** Mae'r Pwyllgor o'r farn nad oedd y newid hwn yn ffocws rhai o'r ardaloedd wedi'i fynegi'n eang ac, yn bwysicach na hynny, nid oedd wedi'i adlewyrchu yn y dangosyddion perfformiad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a luniwyd, yn wreiddiol, ar lefel Cymru gyfan.
- 7.** Mae'r Pwyllgor hwn, yn sgil gwaith y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Menter a Busnes y Pedwerydd Cynulliad, wedi bod yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i ryddhau gwybodaeth fanwl am berfformiad pob ardal o ran creu swyddi (y nod cyffredinol), ynghyd â gwybodaeth fanwl am wariant Llywodraeth Cymru ar bob ardal. Mae'r Pwyllgor yn croesawu penderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet i

ryddhau'r wybodaeth fanylaf o'r math hwn hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae'n resyn iddi gymryd hyd at ddiwedd ymchwiliad y Pwyllgor hwn i gyrraedd y pwynt yma.

8. Dyma enghraifft, dros y pump neu'r chwe blynedd diwethaf, o'r modd y gall rhannu gwybodaeth yn dameidiog ac yn achlysurol gydag Aelodau'r Cynulliad a'r Pwyllgorau atal proses graffu glir a gwrthrychol rhag digwydd, a hefyd creu argraff o dangyflawni ac aneffeithlonrwydd.

9. Ni ddylai fod mor anodd â hyn, na chymryd cymaint o amser, i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth er mwyn inni allu deall yn iawn berfformiad a gwerth am arian un o'i pholisïau economaidd blaenllaw, a chraffu'n briodol arno. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw dyledus i'r feirniadaeth adeiladol hon wrth lunio a gweithredu polisiau yn y dyfodol.

10. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod gwerth mewn cymryd agwedd ranbarthol at ddatblygu economaidd, a bod ffocws ar gefnogi ardaloedd difreintiedig, yn ei hanfod, yn beth da, ac y dylai hynny barhau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod nodau unrhyw agwedd ranbarthol at ddatblygu economaidd yn y dyfodol, ar gyfer pob rhanbarth unigol neu ardal leol, yn glir ac yn realistig; yn ddigon manwl i ganiatáu dealltwriaeth o'r heriau a wynebir; a bod data manwl, agored, tryloyw a phriodol ar gael ar gyfer monitro.

11. Nid bwriad y Pwyllgor yw bod yn feirniadol o waith da Byrddau'r Ardaloedd Menter, ac mae'n sicr yn cydnabod ymrwymiad, ymroddiad ac arbenigedd proffesiynol pob un sy'n gysylltiedig â hwy. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad nad yw cysyniad yr Ardaloedd Menter, ar y cyfan, wedi cyfiawnhau ei hun hyd yma yng Nghymru.

12. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth sy'n awgrymu mai'r ardaloedd sydd wedi cyflawni ar sail y nodau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru oedd y rhai a oedd eisoes yn y sefyllfa orau i wneud hynny o'r dechrau'n deg. Gellir dadlau hefyd mai rhan fach yn eu llwyddiant a chwaraeodd y cymhellion penodol ar gyfer Ardaloedd Menter (er enghraifft yn achos Canol Caerdydd a Glannau Dyfrdwy). Mae yna ardaloedd eraill, a oedd yn dechrau o fan gwahanol iawn o ran yr heriau a wynebwyd ganddynt, a ganfu bod y cymhellion o ryw fudd. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y ffaith bod yr ardaloedd hyn, fel Ynys Môn, Eryri a Glynebwy, yn dal ar eu siwrnai ac wedi canolbwyntio ar roi'r meini adeiladu yn eu lle ar gyfer y tymor hir, gydag Eryri yn benodol eto i ddangos llwyddiant arwyddocaol ar sail y dangosyddion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

13. Ar y cyfan, daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad yw nodau gwreiddiol polisi'r Ardaloedd Menter, sef creu twf a swyddi, wedi'u cyflawni drwyddi draw, a bod y rheini, yn ôl pob tebyg, yn afrealistig o'r dechrau'n deg o ystyried manau cychwyn amrywiol pob un o'r Ardaloedd Menter.

2. Y cefndir

Mae'r bennod hon yn disgrifio sut a pham y cynhaliodd y Pwyllgor yr ymchwiliad hwn.

- 14.** Mae gwaith craffu'r Pwyllgor hwn ar yr Ardaloedd Menter yn parhau â'r gwaith a wnaed gan Bwyllgor Cyllid a Phwyllgor Menter a Busnes y Pedwerydd Cynulliad.
- 15.** Ar 13 Rhagfyr 2017, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad, gan wahodd Cadeiryddion yr wyth Ardal Fenter i drafod cyflawniad a gweithrediad yr ardaloedd hyd yma, ac i ystyried pa ddarpariaeth y dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn y dyfodol. Mae'r cylch gorchwyl llawn i'w weld yn Atodiad 1.
- 16.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan chwech o'r wyth cadeirydd bwrdd ym Mae Caerdydd ar 31 Ionawr 2018 ac 14 Chwefror. Teithiodd tri aelod o'r pwyllgor i Eryri ac Ynys Môn i gyfarfod â chadeiryddion y Byrddau hynny ar 8 Chwefror 2018.
- 17.** Daeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth gerbron y Pwyllgor ar 14 Chwefror i ddatgelu ei gynlluniau ar gyfer dyfodol yr Ardaloedd Menter. Yn ei **ddatganiad ysgrifenedig**, roedd yn galw am lywodraethu symlach, a mwy o ffocws ar ddarparu. I'r perwyl hwnnw, ymrwymodd i barhau â'r ardaloedd menter, ond eboniodd na fyddai rhai o'r Byrddau yn cael eu hadnewyddu pan fyddai eu tymor yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2018.

Ymchwiliadau blaenorol

- 18.** Roedd ymchwiliad¹ y Pwyllgor Cyllid yn 2013 yn ystyried pa gynnydd a wnaed ym mhob un o'r Ardaloedd Menter, gan ganolbwyntio'n benodol ar y mewnbwn ariannol a'r allbynnau a ddisgwylir o'r Ardaloedd. Gwnaeth bum argymhelliad, a derbyniwyd y cyfan gan y cyn Weinidog.

Ardaloedd Menter yn y 1980au

- 19.** Roedd Ardaloedd Menter y 1980au, a ysbrydolodd yr ardaloedd o'r un enw 30 mlynedd yn ddiweddarach, yn wahanol iawn yn y bôn. Er bod rhai o gadeiryddion presennol yr ardaloedd menter wedi edrych ar eu hetifeddiaeth, roedd yn amlwg bod y cymhellion a'r amgylchiadau tra gwahanol yn golygu eu bod yn teimlo nad oedd llawer i'w ddysgu o'r 1980au.

¹ <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=6587>

20. Yn yr un modd, ymddengys na roddwyd fawr o ystyriaeth gan gadeiryddion y byrddau na Llywodraeth Cymru i gymharu perfformiad yn yr ardaloedd menter presennol yn Lloegr.

3. Trosolwg

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r Ardaloedd Menter, y modd y cawsant eu creu, a rhai materion cyffredinol a gododd mewn nifer ohonynt.

Diben ac amcanion

21. Mae wyth Ardal Fenter yng Nghymru, ac mae gan bob un ffocws sectoraidd penodol:

- Caerdydd – sy'n canolbwyntio ar y sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol.
- Ynys Môn – sy'n canolbwyntio ar y sector Ynni.
- Glannau Dyfrdwy – sy'n canolbwyntio ar y sector Gweithgynhyrchu Uwch.
- Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan – sy'n canolbwyntio ar y sector Awyrofod.
- Glynebwy – sy'n canolbwyntio ar y sector Gweithgynhyrchu Uwch.
- Eryri – sy'n canolbwyntio ar y sector Ynni a'r Amgylchedd a'r sector TGCh.
- Dyfrffordd y Ddau Gleddau – sy'n canolbwyntio ar y sector Ynni a'r Amgylchedd.
- Glannau Port Talbot – sy'n canolbwyntio ar y sectorau Gweithgynhyrchu Uwch, Ynni a'r Amgylchedd, ac Adeiladu.

22. Cyhoeddwyd lleoliad pum Ardal Fenter gyntaf Cymru ym mis Medi 2011; ychwanegwyd Eryri a Dyfrffordd y Ddau Gleddau ym mis Ionawr 2012. Cyhoeddwyd ardal fenter Port Talbot ym mis Mawrth 2016.

23. Amcanion datganedig Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Ardaloedd Menter yw:

- meithrin twf yn yr economi leol a darparu swyddi newydd;
- bod yn gatalydd ar gyfer twf mewn ardaloedd eraill yng Nghymru;
- gwneud yr Ardaloedd Menter yn fwy atyniadol i fuddsoddwyr;

- gwneud economi Cymru yn fwy cystadleuol.

24. Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio Ardaloedd Menter fel “ardaloedd lle rydym yn creu’r amodau gorau posibl i’ch busnes ffynnu”.²

“Felly, pan fyddwch chi’n dewis dod o hyd i un o’r wyth Parth Menter yng Nghymru, gallwch ddibynnu ar gefnogaeth gan lywodraeth fusnes pro, y sgiliau sydd eu hangen arnoch i dyfu, seilwaith byd-eang rhithwir a byd go iawn, ystod eang o cyfleoedd eiddo a datblygu, gorbenion hynod gystadleuol a rhai o’r lefelau uchaf o gymhellion ariannol yn y DU.”³

Creu’r Ardaloedd Menter

25. Ymateb uniongyrchol i ardaloedd o’r fath yn Lloegr oedd yr Ardaloedd Menter yng Nghymru.

26. Yn ôl Chris Sutton, cadeirydd Bwrdd Canolog Caerdydd:

“The Chancellor George Osborne actually came to Cardiff and announced enterprise zones for England, and, therefore, Welsh Government had to respond in due course. That was in March 2011, and, therefore, we moved through the Assembly election in May 2011, and we had five enterprise zones then established in September/October 2011. Another two were established shortly thereafter, and then, in response to the steel crisis, a further enterprise zone was created 18 months ago or so.”⁴

Cymhellion

27. Mae Ardaloedd Menter Cymru yn cynnig y cymorth a’r cymhellion a ganlyn:

- Cymorth seilwaith;
- Cymorth Ardrethi Busnes – o dan y rownd ddiweddaraf o gymorth gall cwmnïau sy’n gymwys wneud cais am hyd at £55,000 i wrthbwyso cost yr ardrethi busnes a godir arnynt yn ystod y flwyddyn ariannol 2017-18 neu i dalu eu bil ardrethi, pa un bynnag sydd isaf;

² <https://businesswales.gov.wales/enterprisezones/cy/beth-yw-ardal-fenter>

³ ibid

⁴ Paragraff x, 31 Ionawr 2018

- Lwfansau Cyfalaf Uwch – galluogi busnesau i hawlio lwfans blwyddyn gyntaf o 100 y cant ar gyfer y gost cyfalaf o fuddsoddi mewn offer a chyfarpar a wneir cyn **31 Mawrth 2020**. Mae Lwfansau Cyfalaf Uwch ar gael yng Nglannau Dyfrdwy, Glynebwy, Dyfrffordd y Ddau Gleddau a Glannau Port Talbot;
- Band eang y genhedlaeth nesaf;
- Proses gynllunio symlach a mwy effeithlon – gall awdurdodau cynllunio ddefnyddio Gorchmynion Datblygu Lleol newydd i wneud y drefn gynllunio yn symlach o fewn yr Ardaloedd Menter;
- Cymorth busnes, a darparu hyfforddiant a sgiliau – gall cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru hefyd gynnwys cynorthwyo busnesau i feithrin cysylltiadau â'r byd academiaidd.

28. Mae Astudiaeth Hydredol 2014 Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn:

“Roedd ychydig yn llai na hanner y busnesau a holwyd wedi defnyddio un neu fwy o’r manteision a oedd ar gael iddynt oherwydd eu bod mewn Ardal Fenter.”⁵

29. Roedd safbwyntiau’r cadeiryddion yn amrywio ynghylch a oedd y cymhellion yn effeithiol wrth ddenu busnesau i sefydlu.

30. Dywedodd Roger Maggs, cadeirydd Ardal Fenter Port Talbot, wrth y Pwyllgor:

“The reason people go to Cardiff or Port Talbot or Anglesey is not because of things like financial incentives; it’s because what they have in that zone that is different. And that’s normally skills, access to markets, infrastructure, alliances, stuff like that. And every product is different.”⁶

“The financial incentives have a role. It shows that the zone is serious. It shows that the Welsh Government is serious. If you said that there are no financial incentives, I think it would be negative. But the decisions that people make are not primarily, in my view—I don’t know what my colleagues would say—about rate rebates. They’re about the skills and they’re about markets. They’re about things like, ‘Is there a cluster? Is

⁵ Arolwg Hydredol Llywodraeth Cymru, Mawrth 2014 <http://gov.wales/docs/det/report/140326-longitudinal-survey-enterprise-zones-cy.pdf>

⁶ Paragraff 80, 31 Ionawr 2018

there a sector excellence?’ Those are the things that attract specific businesses.”⁷

31. Disgrifiodd Chris Sutton o Ardal Fenter Canol Caerdydd y manteision fel “ysgafn”. Ychwanegodd:

“I think there’s a profile and a marketing angle to enterprise zones. They put places on the map. There is activity there. There’s a recognition—the local stakeholders see that there’s a focus upon that particular area for whatever reason, due to steel or a nuclear power station or whatever. In terms of Cardiff, the financial services, the growth, the legal services—Cardiff needs to be put on the map. We are not the size of Manchester or indeed Bristol. We need to be fighting on that sort of national stage, and an enterprise zone allows you, and has allowed us...”⁸

32. Gofynnwyd a oedd unrhyw gymhelliant penodol wedi bod yn effeithiol. Ateb David Jones o Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy oedd:

“I suppose the answer is ‘no, not really’, other than we’re offering the same as the others and there’s a lot to build on [in Deeside] already...”⁹

33. Ychwanegodd Mark Langshaw o Ardal Fenter Glynebwy:

“From my perspective, I think if we didn’t have the enterprise zones offering the similar sort of benefits that we’d see in England in the LEPs then that’s a reason not to come.”¹⁰

34. Dywedodd mai blaenoriaethau cyntaf mewnfuddsoddwyr yw a oes eiddo ar gael, yna a oes llafur ar gael, ac yna sut y gallant asio’r llafur hwnnw â’r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer eu busnes.

Casgliad 1. Clywodd y Pwyllgor nad y cymhellion unigol sydd ar gael mewn ardaloedd menter, ynddynt eu hunain, yw’r prif atyniad, ond efallai y byddai anfantais pe na byddent ar gael. Nid yw’n glir i’r Pwyllgor a fu unrhyw un o’r cymhellion unigol yn ddefnyddiol neu’n werth yr arian heblaw rhoi ffocws ar gyfer negeseuon marchnata. Awgryma hyn y gallai hyrwyddo’r ardaloedd yn y dyfodol ar sail lleoliad fod yn effeithiol heb y set lawn o gymhellion, ar yr amod bod gweledigaeth gytûn a chryfderau cynhenid mewn ardal benodol.

⁷ Paragraff 83, 31 Ionawr 2018

⁸ Paragraff 84, 31 Ionawr 2018

⁹ Paragraff 55, 14 Chwefror 2018

¹⁰ Paragraff 57, 14 Chwefror 2018

Argymhelliad 1. Er na ddefnyddiwyd y Lwfansau Cyfalaf Uwch hyd yn hyn, gallant fod yn becyn deniadol. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Drysorlys EM ymestyn y lwfansau hyn am bum mlynedd arall a chefnogi'r ardaloedd i wneud y defnydd gorau o'r lwfansau hyn.

Llywodraethu

35. Mae gan bob Ardal Fenter fwrdd cynghori annibynnol dan arweiniad y sector preifat i gynghori Llywodraeth Cymru ar weithredu a chyflawni cynlluniau a blaenoriaethau. Mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys: rhoi cyngor strategol ar gyfleoedd buddsoddi; hybu datblygu cadwyni cyflenwi; a nodi anghenion o ran eiddo a seilwaith; marchnata a hyrwyddo'r Byrddau Menter.

36. Mewn **datganiad ysgrifenedig** ym mis Gorffennaf 2017, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ei fod wedi bod yn "adolygu trefniadau llywodraethu'r Ardaloedd Menter fel rhan o'm hadolygiad ehangach o fyrddau cynghori" ac y byddai'n "rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau fel y bo'n briodol wrth i gyfnodau presennol y Byrddau presennol ddod i ben ym mis Gorffennaf 2018".

37. Wrth ystyried rôl yr ardaloedd ar gyfer y dyfodol yng ngoleuni'r ymrwymadau "Ffyniannus a Diogel" yn *Symud Cymru Ymlaen*, dywedodd:

"Mae'r Ardaloedd Menter yn gallu cyfrannu'n helaeth at ymrwymadau ein strategaeth Ffyniannus a Diogel, yn enwedig y rheini i greu swyddi newydd, lleihau biliau ardrethi busnes a chreu prentisiaethau. Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar le ac sydd wedi ei deilwra i ateb anghenion a sefyllfaoedd lleol. Rwy'n adolygu'r hyn a gynigir yn yr Ardaloedd Menter i sicrhau y byddant yn parhau i gyflawni targedau ar sail dull mwy rhanbarthol o ddatblygu'r economi."¹¹

38. Ar ddiwedd y datganiad ym mis Gorffennaf 2017, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, "Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r 8 Ardal Fenter bresennol yng Nghymru".

39. Fodd bynnag, nid oedd y Cynllun Gweithredu Economaidd, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn cyfeirio o gwbl at Ardaloedd Menter. Hefyd, ym mis Rhagfyr 2017, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet y wybodaeth a ganlyn wrth ateb Cwestiwn Ysgrifenedig:

¹¹ <https://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf>

“As part of the review of advisory bodies in my portfolio, discussions have taken place with chairs and members of a range of groups including Sector Panels and Enterprise Zone Boards. These are ongoing and will result in a number of groups either drawing to a close, undergoing transition to new forms or continuing according to the outcomes of the review. A number of groups including Sector Panels, will be replaced by an overarching Ministerial Advisory Board, which will be a tight, focussed group of individuals, providing strategic advice on economic development. I will be making further announcements on this and the broader advisory structure that will support it early in 2018.”¹²

40. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 14 Chwefror, cadarnhaodd Mr Skates y byddai'r Ardaloedd Menter yn parhau, ond ei fod wedi gorffen ei adolygiad o lywodraethu ac y byddai'n gwneud newidiadau. Disgrifir y newidiadau hyn fesul ardal fenter yn y bennod a ganlyn.

Casgliad 2. Er bod y Pwyllgor, ar y cyfan, yn cefnogi'r penderfyniad i adolygu a diwygio'r trefniadau llywodraethu, nid yw o blaid uno Ardaloedd Menter Eryri ac Ynys Môn. Disgrifir meddylfryd ac argymhelliad y Pwyllgor yn fanylach yn y bennod a ganlyn.

41. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â barn y byrddau eu hunain fod gwaith i'w wneud o hyd. Fodd bynnag, dylid bod â ffocws i'r gwaith hwn a dylai gael ei gyfyngu gan amser.

42. Dywedodd David Jones, cadeirydd Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, wrth y Pwyllgor:

“I understand why over in the west they need to extend their enterprise zone boards, certainly for a little bit longer, but I would say that if you've got enterprise zone boards over there in five years' time, I think we've got a problem, to be honest. I think, over the next two years or so, they need to be moving things forward so that things progress.”

Casgliad 3. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi cynigion Ysgrifennydd y Cabinet i ganiatáu i rai Byrddau Ardaloedd Menter barhau am gyfnod penodol er mwyn iddynt gwblhau eu gwaith.

¹² Ateb i Gwestiwn Ysgrifenedig 75427/8, 20 Gorffennaf 2017

Unedau a swyddfeydd

43. Un thema a gododd yn gyson ymysg y rhai sy'n cadeirio byrddau'r Ardaloedd Menter oedd y prinder unedau a swyddfeydd sydd ar gael i fusnesau.

44. Clywodd y Pwyllgor fod prinder unedau ar gyfer busnesau bach ar Ynys Môn. Ac roedd y rhenti isel yn ei gwneud hi'n annhebygol y byddai'r sector preifat yn diwallu'r galw hwn.

45. Yn ôl Chris Sutton:

“There is a lack of modern floor space across Wales and there is a case to do that. On Anglesey, to go back to this, there is nothing available. Now, the problem is that the rents do not support speculative development by the private sector. However, what we have done—I know this wearing my property hat—is that we have introduced a property development grant scheme to incentivise private sector developers to build floor space, and a limited amount has been built in Anglesey, a limited amount has been built in Deeside. But if you look across the whole of Wales there are perhaps only two or three vacant industrial buildings, and apart from one square mile of our capital city, there is no speculative development to note anywhere.”¹³

46. Cytunodd Stan McIlvenny, cadeirydd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau, hefyd fod y farchnad wedi methu y tu allan i'r brifddinas.¹⁴ Ychwanegodd Mr Sutton:

“I think there is a shortage of units across the board, and in particular the SME market, those small units. If you look at them, they're quite expensive to build. You've got more doors, more toilets, more services. So, per square foot, small starter units are more expensive to build. If you look at the Valleys, they are all at 95 per cent to 98 per cent occupancy, those schemes. They are, and you'll often find a terrace where you've got the same tenant in all of them because there's no follow-on space. I honestly think—this is not enterprise zone, necessarily—you could build 500, 600 starter units across south-east Wales or south Wales generally, and the market wouldn't blink.”¹⁵

¹³ Paragraff 220, 31 Ionawr 2018

¹⁴ Paragraff 246, 31 Ionawr 2018

¹⁵ Paragraff 230, 31 Ionawr 2018

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru edrych yn strategol ar yr eiddo masnachol a'r unedau diwydiannol sydd ar gael a gweithio gyda Llywodraeth Leol i sicrhau bod arian ar gael ar gyfer ardaloedd lle mae angen datblygu unedau addas.

Cynllunio

47. Mae proses gynllunio symlach a chreu Gorchmynion Datblygu Lleol yn rhai o'r cymhellion sydd ar gael i'r Ardaloedd Menter. Er hynny, nid oes yr un o Ardaloedd Menter Cymru wedi eu defnyddio.

48. Ni ddywedodd yr un o'r cadeiryddion fod cynllunio yn broblem benodol, gan fod yr awdurdodau lleol yn awyddus i gydweithio'n agos â datblygwyr ar brosiectau mawr. Amlygodd Cadeirydd Menter Dyfrffordd y Ddau Gleddau, Stan McIlvenny, y cymhlethdod o gael caniatâd ar gyfer cyfleuster newydd i gynhyrchu pŵer.¹⁶

49. Yn ôl Chris Sutton:

“However, planning needs to be more responsive in the round. I think that [then Minister] Mrs Hart missed a trick back in 2011 when she handed out the enterprise zones, or allocated them, because I think the sensible thing then would have been to say, ‘We are going to create some enterprise zones. I invite nominations for where they should be located. The only prerequisite is that you must have a valid local development plan’. That would have helped force through local development plans. For example, Cardiff was given one, and it didn't have a valid LDP until 2015. So, it could have nudged and influenced behaviour to deliver those LDPs.”¹⁷

Casgliad 4. O ystyried y pwysigrwydd y mae llawer o fusnesau yn ei roi ar brosesau cynllunio cyflym, mae'n rhyfedd nad oes yr un o'r wyth Ardal Fenter yng Nghymru wedi archwilio'r manteision amlwg o greu Gorchmynion Datblygu Lleol.

¹⁶ Paragraff 93, 31 Ionawr 2018

¹⁷ Paragraff 222, 31 Ionawr 2018

4. Gwerth am arian

Canfu'r Pwyllgor nad yw'r prif ystadegau sydd ar gael i asesu pa mor effeithiol yw'r Ardaloedd Menter yn rhoi darlun llawn o lwyddiant neu fethiant.

Tablau data

Ar gais y Pwyllgor, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru dabl cyflawn o ddata yn dangos y swyddi a grëwyd, y swyddi a ddiogelwyd a'r swyddi a gynorthwywyd ym mhob Ardal Fenter, a'r swm a wariwyd arnynt ym mhob blwyddyn. Caiff y cyfansymiau cyffredinol o'r tabl hwnnw eu hatgynhyrchu isod.

Tabl 1 Holl Ardaloedd Menter Cymru¹⁸

Swyddi a grëwyd	2998.1
Swyddi a ddiogelwyd	4359.0
Swyddi a gynorthwywyd	3169.4
Cyfanswm y swyddi a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	10706.5
Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru	£221.1 miliwn
Cost fesul swydd a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	£20,655

50. Mae rhagor o ddata ym mhennod 5 sy'n edrych ar berfformiad ardaloedd menter unigol.

51. Awgrymodd cadeiryddion y byrddau y byddai llawer o'r buddsoddiad mewn trafniadaeth a seilwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnwys yn ei data ar gyfer Ardaloedd Menter wedi digwydd beth bynnag, ac yn achos gwaith Blaenau'r Cymoedd yng Nglynebwy, wedi ei drefnu cyn bodolaeth yr Ardaloedd Menter hyd yn oed.

52. Dadleuodd Roger Maggs y dylid ystyried buddsoddiadau mawr dros gyfnod hwy. Awgrymodd y dylai'r buddsoddiad hwnnw gael ei amortyddio dros 20 mlynedd, a dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai'n gofyn rhagor o gwestiynau ynghylch sut y cyfrifir y ffigurau.¹⁹

53. Ychwanegodd Julian Verity Cadeirydd Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan, fel a ganlyn:

¹⁸ Crëwyd o ddata Llywodraeth Cymru

¹⁹ Paragraff 173, 31 Ionawr 2018

“...a lot of these capital projects that have had our figures would have been put in place anyway. The money would have been spent on those infrastructure projects. It seems slightly unfair that it could be put down entirely to us.”²⁰

Casgliad 5. Wrth i'n hymchwiliad fynd rhagddo, daeth yn amlwg mai gorsymleiddio gwaith y byrddau yw ystyried arian i mewn a swyddi allan yn unig. Gall penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynnwys gwariant ar brosiectau trafnidiaeth sy'n cefnogi'r Ardaloedd Menter roi darlun camarweiniol.

Monitro

54. Teimlai nifer o gadeiryddion y byddai angen monitro dros gyfnod hwy i asesu gwir effaith yr Ardaloedd Menter yn hytrach na dim ond cynnal asesiad cipolwg ar ôl pum mlynedd.

55. Dywedodd Julian Verity:

“I think one has to look at the 10-year picture, as it were. We're [y Bwrdd] sort of going halfway through.”²¹

56. Er mwyn mesur effeithiolrwydd yr Ardaloedd Menter a deall yn iawn pa werth a gynigir ganddynt, bydd angen parhau i fonitro'r swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd ym mhob ardal hyd yn oed ar ôl i'r Byrddau roi'r gorau i fod yn weithredol.

57. Holodd Stan McIlvenny a fyddai edrych ar effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol creu a chadw swyddi yn adlewyrchu'r wir gost yn well.²² Byddai'r data hyn yn dangos yr effaith ar y gymuned yn well.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru lunio adroddiadau blynyddol ar yr Ardaloedd Menter, fel yr arferai ei wneud, a darparu data clir ar gyfer pob ardal. Dylai gynnwys dadansoddiad manwl o'r cymorth a roddwyd i gwmnïau a gefnogir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ganddi. Hefyd, dylid llunio adroddiadau mwy tryloyw am y buddsoddiad ym mhob un o'r Ardaloedd Menter, gyda data cywir ar gyfer buddsoddiad penodol yr Ardaloedd nad yw'n cynnwys gwariant ehangach Llywodraeth Cymru.

²⁰ Paragraff 174, 31 Ionawr 2018

²¹ Paragraff 167, 31 Ionawr 2018

²² Paragraff 178, 31 Ionawr 2018

Casgliad 6. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ffigurau sy'n ymwneud â'r Ardaloedd Menter ar gais y Pwyllgor hwn a Phwyllgorau eraill y Cynulliad, nid yw cyflwyno data damaid wrth damaid fel hyn yn dweud y stori lawn. Yn achos llawer o'r Ardaloedd Menter, mae'r nod gwreiddiol o "swyddi a thwf" wedi newid yn rôl fwy cymhleth o ddatblygu safleoedd a sgiliau ar gyfer cyfleoedd posibl yn y dyfodol. Dylai'r data a gedwir ac a gyhoeddir ar gyfer y gwaith monitro adlewyrchu'r newid pwyslais yn well.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu data blynyddol wedi'u dadgyfuno ar gyfer swyddi a grëwyd, a ddiogelwyd ac a gynorthwywyd ymhob ardal.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru wneud yn eglur beth yw ei blaenoriaethau ar gyfer yr Ardaloedd Menter, gan gyhoeddi targedau blynyddol clir, a dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymrwymo i gyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig yn amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar gyllido, rolau a chyfnod gweithredol yr Ardaloedd Menter yn y dyfodol.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw ddull rhanbarthol o ran datblygu economaidd, ar gyfer bob rhanbarth unigol neu ardal leol: yn glir a realistig; yn ddigon manwl i roi dealltwriaeth o'r heriau a wynebir; a bod data monitro manwl, agored, tryloyw a phriodol i'w cefnogi.

5. Marcio'r Ardaloedd Menter

Beth a gyflawnwyd, a faint sydd wedi'i wario, ym mhob Ardal Fenter?

Ynys Môn

Cyflymodd y Bwrdd y gwaith o ddatblygu ffordd newydd o amgylch Llangefni, rhyddhawyd tir i ddatblygu cyfleusterau newydd yn y coleg lleol, ynghyd â thair newydd a datblygiadau eraill.

Mae'n gweithio i sicrhau bod yr ardal yn barod ar gyfer y penderfyniad terfynol ar yr Wylfa Newydd – y posibilrwydd o ddatblygu gorsaf pŵer niwclear newydd yn yr Wylfa

Tabl 2 Ynys Môn²³

Swyddi a grëwyd	502
Swyddi a ddiogelwyd	444
Swyddi a gynorthwywyd	88
Cyfanswm y swyddi a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	1,034
Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru	£6.4m
Cost fesul swydd a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	£6,184

58. Cyfarfu aelodau'r Pwyllgor â Neil Rowlands, Cadeirydd Ardal Fenter Ynys Môn, ac aelodau eraill y Bwrdd yn ystod ymweliad â Gogledd Cymru ar 8 Chwefror 2018.

59. Mr Rowlands yw Rheolwr Cyffredinol Gwesty Gwledig a Sba Tre Ysgawen, Llangefni.

60. Gwnaeth angerdd y bwrdd argraff ar yr Aelodau, ynghyd â'i ymdeimlad o waith ar y gweill. Mae nifer o brosiectau arbennig ar y gweill, ac ymdeimlad na ellir cwblhau'r gwaith hyd nes y gwneir penderfyniad pendant am yr orsaf ynni niwclear newydd, sef Wylfa B. Mae'r Bwrdd yn gweld bod ganddo rôl i sicrhau bod popeth yn barod er mwyn i'r ynys elwa ar yr orsaf bŵer newydd pan gaiff y golau gwyrdd, neu i liniaru'r canlyniadau pe na cheir caniatâd ar gyfer yr orsaf.

²³ Data gan Lywodraeth Cymru

Y camau nesaf

61. Roedd bwrdd Ynys Môn yn awyddus i barhau, ac yn gwrthwynebu uno ag Eryri. Roedd aelodau'r Bwrdd yn pryderu y gallai ffocws presennol y Bwrdd ar Ynys Môn fod yn wannach ar ôl uno, ac y gallai Llywodraeth Cymru fabwysiadu ffocws rhanbarthol ehangach.

Casgliad 7. Er bod apêl benodol i uno byrddau Ynys Môn ac Eryri, mae perygl na fydd y weledigaeth sydd gan y ddwy ardal fenter mor glir, na'r eiriolaeth a ddarperir ganddynt mor gryf. O ystyried yr angen am leisiau cryf i hyrwyddo'r ardal wrth i benderfyniadau allweddol gael eu gwneud ynglŷn â dyfodol cynhyrchu ynni yn yr ardal, mae'n gwneud synnwyr i'r Pwyllgor ganiatáu i Fwrdd Ynys Môn barhau, o leiaf nes bod eglurder ynghylch yr Wylfa Newydd.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried ei bwriad arfaethedig i uno Byrddau Ynys Môn ac Eryri.

Canol Caerdydd

Ymysg y prosiectau yn Ardal Fenter Canol Caerdydd mae: mewnfuddsoddiadau o Deloitte ac Alert Logic; adleoli i'r ardal fenter gan Admiral, y BBC a Chyllid a Thollau EM; buddsoddi mewn sgiliau gyda choleg addysg bellach newydd ar gyfer Caerdydd a'r Fro; ac ehangiad ar gyfer Prifysgol De Cymru gydag Atriwm 2 a 3.

Mae yna hefyd gynnig gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd am gampws creadigol newydd a chynnig gan Brifysgol Caerdydd am ysgol newyddiaduraeth newydd.

Tabl 2 Canol Caerdydd²⁴

Swyddi a grëwyd	481.5
Swyddi a ddiogelwyd	73.0
Swyddi a gynorthwywyd	1,300.4
Cyfanswm y swyddi a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	1,854.9
Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru	£61.9 miliwn
Cost fesul swydd a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	£33,422

62. Daeth Chris Sutton, cadeirydd Ardal Fenter Canol Caerdydd, gerbron y Pwyllgor ar 31 Ionawr 2018.

²⁴ Data gan Lywodraeth Cymru

63. Dywedodd Mr Sutton wrth y Pwyllgor fod y Bwrdd wedi cyflawni'i ddiben:

“So, in terms of the advisory board, I think we’ve served our purpose and done that. But no, the job in Cardiff isn’t finished, and I think there’s always a follow-on.”²⁵

64. Ond pwysleisiodd fod Ardal Fenter Caerdydd yn gallu cynnig cyfleoedd unigryw na allai rhannau eraill Cymru eu cynnig.

“Central Cardiff enterprise zone actually reaches parts of the economy that other cities and other towns in Wales can’t reach, in the same way that London can reach parts of the economy that Cardiff can’t reach. So, we mustn’t hold back Cardiff; we must promote Central Cardiff in terms of its financial and professional services and allow it to compete on that national and international field. And what the enterprise zone has done is allowed us to find areas and promote that, as, indeed, other enterprise zones can also promote their particular specialities—the sectors and the geographies and the factors that influence those various locations.”²⁶

Y camau nesaf

65. Mae nifer uchel o swyddi newydd wedi’u creu gan Fwrdd Ardal Fenter Canol Caerdydd, er bod hynny mewn safle lle mae’r farchnad eisoes yn fywiog. Mae’r Bwrdd yn fodlon â chynnig Llywodraeth Cymru i’w ddirwyn i ben erbyn mis Gorffennaf 2018.

Casgliad 8. Mae’r Pwyllgor yn cefnogi’r bwriad i ddirwyn Bwrdd Canol Caerdydd i ben.

²⁵ Paragraff 57, 31 Ionawr 2018

²⁶ Paragraff 50, 31 Ionawr 2018

Glannau Dyfrdwy

Mae'r Bwrdd wedi sicrhau bod safle 200 erw Porth y Gogledd, sy'n strategol bwysig, ar gael.

Bu'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch.

"...those two things together can be real legacy issues for the future of Deeside in the same way that Deeside industrial park today is a legacy of people who had the foresight to deal with that 20 or 30 years ago." – David Jones, Cadeirydd, Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy

Tabl 3 Glannau Dyfrdwy²⁷

Swyddi a grëwyd	1,290.0
Swyddi a ddiogelwyd	3,380.0
Swyddi a gynorthwywyd	1,344.0
Cyfanswm y swyddi a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	6,014.0
Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru	£29.1m
Cost fesul swydd a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	£4,837

66. Daeth David Jones, cadeirydd Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, gerbron y Pwyllgor ar 14 Chwefror 2018. Teimlai fod y Bwrdd wedi cwblhau ei waith.

67. Ers hynny, mae'r Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch wedi cael caniatâd cynllunio.

Y camau nesaf

68. Mae Bwrdd Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy yn cael ei ddirwyn i ben, er bod bwrdd newydd yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch. Yn ei ddatganiad, roedd Yr Ysgrifennydd Cabinet yn awgrymu y gallai'r bwrdd newydd fod yn ffordd i Lywodraeth Cymru a'i swyddog arweiniol newydd yng Ngogledd Cymru gasglu barn busnesau.

69. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

"I see the governance arrangements on the AMRI as replacing the governance arrangements for the enterprise zone."²⁸

²⁷ Data gan Lywodraeth Cymru

²⁸ Paragraff 163, 14 Chwefror 2018

Casgliad 9. Nododd y Pwyllgor fod Glannau Dyfrdwy wedi creu mwy o swyddi na'r Ardaloedd Menter eraill ac mae'n cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet fod gwaith y Bwrdd wedi dod i'w ddiwedd naturiol.

Gweler Argymhelliad 10 ynglŷn â'r angen am ragor o fanylion am drefniadau llywodraethu'r Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch.

Glynebwy

Mae'r Bwrdd wedi datblygu seilwaith fel bod y safleoedd buddsoddi posibl yn barod ar gyfer dechrau'r gwaith. Mae'r Ardal Fenter wedi cael buddsoddiad sylweddol o ran cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd.

Mae'r Bwrdd wedi dod â rhwydwaith cryf o'r gymuned fusnes at ei gilydd ac mae cynllun prentisiaeth ar y cyd bellach wedi ei sefydlu sy'n cynnal 52 o brentisiaid gyda 14 o gwmnïau'n cymryd rhan.

Tabl 4 Glynebwy²⁹

Swyddi a grëwyd	175.5
Swyddi a ddiogelwyd	70.5
Swyddi a gynorthwywyd	144.0
Cyfanswm y swyddi a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	390.0
Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru	£94.6 miliwn
Cost fesul swydd a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	£242,493

70. Daeth Mark Langshaw, cadeirydd Bwrdd Ardal Fenter Glynebwy, gerbron y Pwyllgor ar 14 Chwefror 2018.

Y camau nesaf

71. Bydd Bwrdd Ardal Fenter Glynebwy yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2018. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod ei swyddogion yn gweithio gyda'r Bwrdd i sicrhau proses hwylus o drosglwyddo i drefniadau llywodraethu Cymoedd Technoleg.³⁰

²⁹ Data gan Lywodraeth Cymru

³⁰ Menter sy'n werth £100 miliwn dros 10 mlynedd yw Cymoedd Technoleg, y disgwylir iddi gynnwys arloesedd mewn meysydd fel datblygu a phrofi technoleg batri a modur, gweithgaredd 5G a'r seilwaith sydd ei angen ar gyfer cerbydau allyriadau awtomatig ac isel.

<http://gov.wales/newsroom/businessandconomy/2017/171218-valleys-to-be-globally-recognised-for-emerging-technologies-by-2027/?lang=cy>

72. Roedd Mr Langshaw yn awyddus i weld y Bwrdd yn parhau. Nid yw'n glir sut y bydd Bwrdd y Cymoedd Technoleg newydd yn dylanwadu ar yr Ardal Fenter, neu a yw hyn yn well trefniant hyd yn oed.

73. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut y bydd hyn yn gweithio (gweler Argymhelliad 10).

Casgliad 10. Ardal Fenter Glynebwy yw'r lleiaf trawiadol o ran allbynnau pendant o gymharu â'r arian a gafodd. Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n ymwneud fwyaf â'r Ardal Fenter yn sôn am glwstwr da o ddarpar fuddsoddwyr a datblygiadau. Yr her i Lywodraeth Cymru, a "bwrdd" y Cymoedd Technoleg pan gaiff ei sefydlu, fydd sicrhau bod y clwstwr hwn yn cael ei drosi yn swyddi a chyfleoedd go iawn.

Dyfrffordd y Ddau Gleddau

Mae parth arddangos ynni tonnau newydd wedi'i sefydlu oddi ar arfordir Sir Benfro; mae safle Waterstone wedi'i werthu i Ednedol Ltd, sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio i'w newid yn ganolfan o ragoriaeth ym maes ynni adnewyddadwy.

Rhodddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer gweithfeydd gwres a phŵer cyfun sy'n werth £110 miliwn a fydd yn caniatáu i Valero fod yn hunan-ddibynnol o ran costau ynni yn y dyfodol.

Tabl 5 Dyfrffordd y Ddau Gleddau³¹

Swyddi a grëwyd	356.0
Swyddi a ddiogelwyd	561.5
Swyddi a gynorthwywyd	196.0
Cyfanswm y swyddi a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	1,113.5
Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru	£9.3 miliwn
Cost fesul swydd a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	£8,368

74. Daeth Stan McIlvenny, cadeirydd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau, gerbron y Pwyllgor ar 31 Ionawr 2018.

³¹ Data gan Lywodraeth Cymru

Y camau nesaf

75. Bydd Bwrdd Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn parhau tan fis Gorffennaf 2021. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi gofyn am waith penodol i edrych ar y posibilrwydd o sefydlu porthladdoedd rhydd a chael cynnig penodol i Gymru ar ôl Brexit.

76. Trafododd y Pwyllgor borthladdoedd rhydd fel rhan o'r gwaith Pwerau Newydd: Posibiliadau Newydd a wnaed ganddo yn gynharach eleni, ac mae hefyd wedi cael tystiolaeth gan Borthladd Aberdaugleddau yn awgrymu y byddai dynodiad o'r fath yn rhoi hwb mawr i'r economi yn achos porthladdoedd a meysydd awyr Cymru. Bydd y Pwyllgor yn cymryd diddordeb yn ffrwyth gwaith Bwrdd Dyfrffordd y Ddau Gleddau.

Casgliad 11. Mae'r Pwyllgor o blaid ymestyn cyfnod Bwrdd Dyfrffordd y Ddau Gleddau.

Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan

Y buddsoddiad uchel ei broffil yn yr ardal gan Aston Martin oedd y prif lwyddiant, a disgwylir i nifer y swyddi gynyddu'n amlwg yn ystod y misoedd nesaf.

Tabl 6 Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan³²

Swyddi a grëwyd	137.6
Swyddi a ddiogelwyd	0.0
Swyddi a gynorthwywyd	85.0
Cyfanswm y swyddi a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	222.6
Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru	£13.8 miliwn
Cost fesul swydd a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	£62,009

77. Daeth Julian Verity, Cadeirydd Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan, gerbron y Pwyllgor ar 31 Ionawr 2018.

78. Dywedodd Mr Verity fod gan y Bwrdd dri amcan pan ddechreuodd fel cadeirydd: gwneud y mwyaf o'r portfolio eiddo a chwblhau'r prif gynllun; codi proffil yr ardal; ac ymchwilio i'r diffyg sgiliau a mynd i'r afael â'r diffyg hwnnw:

“The focus has been high-tech, high-end manufacturing and aerospace. We approach a point of job complete... and are winding down.”³³

³² Data gan Lywodraeth Cymru

79. Dywedodd Mr Verity fod yr Ardal Fenter wedi cyflawni ei hamcanion, ond ychwanegodd ei bod yn hollbwysig bod y gweision sifil sy'n symud y gwaith ymlaen yn parhau i gadw troed ar y sbardun.³⁴

Y camau nesaf

80. Roedd Mr Verity yn glir bod gwaith y Bwrdd wedi'i gwblhau a bod y broses o'i ddirwyn i ben bellach ar y gweill.

Casgliad 12. Mae dod â Bwrdd Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan i ben yn gam synhwyrol. Mater i Lywodraeth Cymru fydd sicrhau bod y prosiectau sydd wedi'u cychwyn yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

Port Talbot

Nid yw Ardal Fenter Port Talbot wedi bod ar waith cyhyd â'r ardaloedd eraill ac mae iddi ffocws gwahanol. Yn hytrach na chreu swyddi, ei nod yw lliniaru'r posibilrwydd o golli swyddi yn Tata Steel ac i geisio amrywio'r economi leol.

Tabl 7 Port Talbot³⁵

Swyddi a grëwyd	49.5
Swyddi a ddiogelwyd	8.0
Swyddi a gynorthwywyd	0.0
Cyfanswm y swyddi a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	57.5
Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru	£3.8 miliwn
Cost fesul swydd a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	£66,046

81. Cafodd Ardal Fenter Port Talbot ei chreu mewn ymateb i'r bygythiad o golli swyddi yn Tata Steel. Mae'n ymddangos bod y bygythiad penodol hwnnw wedi cilio yn y blynyddoedd ers sefydlu'r Ardal Fenter. Fodd bynnag, mae'r risg i'r gwaith ym Mhort Talbot o ran newidiadau mewn tariffau a'r farchnad ddur fyd-eang yn parhau i fod yn broblem o hyd.

82. O ystyried y gorddibyniaeth ar un diwydiant yn yr ardal, mae'n dal i fod yn gam doeth i fod â chynlluniau ar waith i arallgyfeirio'r economi. Daeth Roger Maggs, cadeirydd yr ardal fenter, gerbron y Pwyllgor ar 31 Ionawr 2018.

³³ Para 17, 31 January 2018

³⁴ Paragraff 287, 31 Ionawr 2018

³⁵ Data Llywodraeth Cymru

Y camau nesaf

83. Gofynnwyd i'r Bwrdd barhau am y tro. Pan ddaeth gerbron y Pwyllgor, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet estyniad o dair blynedd hyd at Orffennaf 2021.

Casgliad 13. O ystyried nad yw wedi bod ar waith am gyfnod hir, mae'n ymddangos yn gam synhwyrol i ymestyn oes Bwrdd Port Talbot am dair blynedd arall, a hynny ar sail tasg a gorffen o fewn cyd-destun o amcanion clir.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru osod cyfeiriad clir o ran beth y mae'n disgwyl i Fwrdd Ardal Fenter Port Talbot ei gyflawni, ac amserlen glir i'w wneud, fel y gellir dod â'r Bwrdd i ben pan fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau.

Eryri

Er mai dim ond dyrnaid o swyddi y mae Ardal Fenter Eryri wedi eu creu hyd yma, mae'r Bwrdd wedi sefydlu gweledigaeth glir, ymarferol ac uchelgeisiol ar gyfer ardal nad oes ganddi rai o fanteision masnachol yr ardaloedd eraill. Mae hefyd wedi sicrhau bod yr ardal ar flaen y gad pe byddai Llywodraeth y DU yn penderfynu buddsoddi mewn technoleg niwclear SMR.

Tabl 8 Eryri³⁶

Swyddi a grëwyd	6.0
Swyddi a ddiogelwyd	2.0
Swyddi a gynorthwywyd	12.0
Cyfanswm y swyddi a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	20.0
Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru	£2.2 miliwn
Cost fesul swydd a grëwyd, a ddiogelwyd neu a gynorthwywyd	£108,333

84. Cyfarfu aelodau'r pwyllgor â John Idris Jones, cadeirydd Ardal Fenter Eryri, yn ystod ymweliad â Thrawsfynydd ar 8 Chwefror 2018. Dywedodd wrthynt iddi ddod yn amlwg, ar ôl asesu cryfderau a gwendidau'r ardal, nad oedd yn debygol y byddai unrhyw ffordd y gellid sicrhau swyddi ar unwaith.

85. Dysgodd yr aelodau am y gwaith a wnaed hyd yn hyn wrth baratoi'r ddau safle, yr orsaf bŵer yn Nhrawsfynydd a Chanolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr. Roedd mynediad i 7,100km² o ofod awyr a band eang cyflym iawn i'r safle awyrofod, gan ei wneud yn ddelfrydol ar gyfer profi dronau.

³⁶ Data gan Lywodraeth Cymru

86. Mae safle Trawsfynydd, sydd â chysylltedd ardderchog i'r Grid – fel y byddid yn ei ddisgwyl o gyn orsaf bŵer – a gweithlu lleol sy'n gyfarwydd â'r agweddau diogelwch o weithio gyda phŵer niwclear, mewn sefyllfa dda ar gyfer Adweithyddion Modiwlaid Bach (SMR). Adweithyddion niwclear bach yw'r rhain y gellid eu defnyddio i gynhyrchu trydan. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd Llywodraeth y DU yn buddsoddi mewn technoleg SMR.

Y camau nesaf

87. Fel y nodwyd mewn perthynas ag Ynys Môn, er bod apêl benodol i uno byrddau Ynys Môn ac Eryri, mae perygl na fydd y weledigaeth sydd gan y ddwy ardal fenter mor glir, na'r eiriolaeth a ddarperir ganddynt mor gryf, pe byddent yn uno.

88. Mae Eryri mewn cyfnod ansicr tra bod Llywodraeth y DU yn penderfynu a fydd yn mabwysiadu proses o gynhyrchu SMR ai peidio. Bydd eiriolaeth gref yn allweddol i annog y penderfyniad cywir. Tra bod hyn yn parhau, byddai'n gwneud synnwyr i gadw Bwrdd yr Ardal Fenter, oherwydd gall ei aelodau fod yn llysgenhadon pwerus ar gyfer yr ardal, a'r syniad. Gweler Argymhelliad 8.

89. Os yw cost a / neu gapasiti yn broblem, efallai y bydd modd lleihau amllder cyfarfodydd / gweithgaredd Bwrdd Eryri, ond parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i ddod i benderfyniad ar dechnoleg niwclear SMR.

6. Y camau nesaf

Dyfodol yr Ardaloedd Menter yng Nghymru

90. Roedd tymor y Byrddau a'r Cadeiryddion i ddod i ben ym mis Gorffennaf 2018. Roedd y Pwyllgor wedi gobeithio gallu dylanwadu ar benderfyniad Llywodraeth Cymru ar y camau nesaf.

91. Fodd bynnag, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ei gynllun ar gyfer y Byrddau yn ei ddatganiad ar 14 Chwefror. Dywedodd y gallai newid ei feddwl pe bai'r Pwyllgor yn gwneud "achos cymhellol".

92. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod achos cryf dros ailystyried y sefyllfa o ran uno'r ddwy ardal fenter yn y Gogledd-orllewin.

93. Yn ystod ein hymweliad â'r ddwy ardal, gwelodd aelodau'r Pwyllgor yr angerdd sydd yn y ddau Fwrdd a'r ymdeimlad o genhadaeth a ddangoswyd ganddynt. Yn y ddau achos mae'r Ardaloedd Menter yn aros am benderfyniadau gan gyrff allanol. Mae'n ymddangos yn wrthgynhyrchiol i gael gwared â grŵp cryf o lysgenhadon ar gyfer yr ardal, ar yr union adeg pan fo angen mawr am eiriolaeth. Mae angen hwb ychwanegol ar y ddwy ardal fenter dros gyfnod byr o bosibl, a'r ffordd orau o wneud hyn yw caniatáu i'r ddau Fwrdd barhau ar wahân.

94. Mewn cyflwyniad i'r Pwyllgor yn dilyn y sesiynau tystiolaeth lafar, roedd Porthladd Aberdaugleddau yn dadlau y gallai ardaloedd menter ganolbwyntio ar borthladdoedd a meysydd awyr yn y dyfodol:

"The Port of Milford Haven would like to see ports, airports and other major economic centres in Wales prioritised as economic zones – providing leadership and a regulatory environment which makes it easy for businesses to operate, invest and employ."³⁷

95. Pa un a enwir y rhain yn Ardaloedd Menter, neu'n borthladdoedd rhydd, mae'r syniad yn syml – creu mannau lle mae'n haws i ddatblygiad ddigwydd. Nid yw'n eglur ar hyn o bryd sut y gallai ardaloedd o'r fath sydd wedi'u dadreoleiddio fod yn gydnaws â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a'i chanllawiau. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi gofyn i Fwrdd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau edrych yn benodol ar y mater hwn, a bydd y Pwyllgor yn ymddiddori yn ei ganfyddiadau.

³⁷ Cohebiaeth gan Borthladd Aberdaugleddau, a ddaeth i law ar 14 Mawrth 2018.

Ardaloedd Menter a'r dull rhanbarthol o ddatblygu economaidd

96. Mae'r pwyslais y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei roi ar ddull rhanbarthol o ddatblygu economaidd yng Nghymru yn golygu y bydd rhagolygon yr Ardaloedd Menter yn y dyfodol yn rhan o'r cyd-destun hwnnw.

97. Mae'n rhy gynnar yn y broses i ddisgwyl eglurder ynghylch yr union berthynas rhwng yr arweinwyr datblygu economaidd rhanbarthol newydd yn Llywodraeth Cymru a'r Ardaloedd Menter, ond bydd y berthynas honno'n hanfodol i sicrhau y bydd y gwaith a ddechreuwyd gan y byrddau'n cael ei gwblhau ac yn sicrhau swyddi a thwf.

98. Wrth roi tystiolaeth, mynegodd Roger Maggs bryder na fyddai gan yr uwch weision sifil ryddid i feddwl yn ddilyffethair fel yr oedd y Byrddau wedi medru ei wneud:

“One of the things the board does, and is uniquely able to do because of who's on it and what kind of people they are, is that they can make fools of themselves. They can say outrageous things, have outrageous ideas and they can think outside the box, which you can't really do if you're in a council or in the Welsh Government civil service.”³⁸

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r berthynas rhwng y cyfarwyddwyr rhanbarthol newydd sy'n arwain datblygu economaidd a'r Ardaloedd Menter, a'r gymuned fusnes mewn ardaloedd lle nad yw'r Byrddau bellach yn bodoli.

99. Yng Nglannau Dyfrdwy a Glynebwy, mae cyrff eraill yn cael eu sefydlu fel “cyrff i olynu” Byrddau'r Ardaloedd Menter. Bydd y trefniadau llywodraethu ar gyfer yr Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch a'r Cymoedd Technoleg, o reidrwydd, yn wahanol iawn i Fyrddau'r Ardaloedd Menter. Nid yw'n glir i'r Pwyllgor sut y gellir sicrhau cydbwysedd rhwng parhad a gwahaniaethu.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ymhle y caiff trefniadau llywodraethu eraill eu sefydlu (Glynebwy, Glannau Dyfrdwy), manylion llawn y ffordd y bydd y cyrff newydd yn gweithredu, sut y byddant yn parhau â gwaith Byrddau'r Ardaloedd Menter, a'r dyletswyddau gwahanol a fydd ganddynt.

³⁸ Paragraff 119, 31 Ionawr 2018

Atodiad 1

Cylch gorchwyl

Asesu'r ffordd y cafodd yr Ardaloedd Menter eu rhoi ar waith a'r modd y cânt eu gweithredu hyd yma, gan gynnwys:

- y cynnydd a wneir yn erbyn amcanion datganedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y polisi Ardaloedd Menter (a sut mae'r cynnydd hwn yn cael ei fonitro a'i werthuso);
- cyflawniadau pob ardal hyd yma, ochr yn ochr â'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn y broses;
- y defnydd a wneir o'r ystod o gymhellion a gynigir ym mhob ardal.
- y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y polisi cyfredol ynghylch Ardaloedd Menter;
- perfformiad yr Ardaloedd Menter yn Lloegr.

Ystyried cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Ardaloedd Menter yn y dyfodol, gan gynnwys:

- targedau ac amcanion penodol pob ardal, a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni;
- rôl Byrddau'r Ardaloedd Menter;
- y graddau y maent yn cyd-fynd â dull rhanbarthol Llywodraeth Cymru, y Cynllun Gweithredu Economaidd a mentrau eraill sy'n seiliedig ar le, megis Tasglu'r Cymoedd, dinas-ranbarthau a bargeinion dinesig.

Atodiad 2

Dadansoddiad manylach o'r costau a gafwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 14 Chwefror. Mae'r holl ffigurau yn rhai 2012-2017, wedi'u crynhoi i'r bunt agosaf, fel y darparwyd gan Lywodraeth Cymru mewn gohebiaeth.³⁹

	Ynys Mon	Glannau Dyfrdwy	Port Talbot
Cymorth Busnes			
Uniongyrchol	£3,920,635	£27,330,531	£1,714,505
Trafnidiaeth	£2,331,161	£1,611,250	£2,066,000
Seilwaith	£105,084	£121,853	£17,162
Eiddo	£40,369	£32,049	£-
Cyfanswm	£6,397,249	£29,095,683	£3,797,667
	Caerdydd a Sain Tathan	Glynebwy	Eryri
Cymorth Busnes			
Uniongyrchol	£3,584,281	£5,307,005	£1,124,198
Trafnidiaeth	£10,178,000	£88,340,000	£1,236,872
Seilwaith	£28,861	£915,896	£219
Eiddo	£12,103	£9,738	£-
Cyfanswm	£13,803,245	£94,572,639	£2,361,289
	Canol Caerdydd	Dyfrffordd y ddau Gleddau	Cyfanswm Cymru
Cymorth Busnes			
Uniongyrchol	£14,866,983	£6,681,296	£74,129,435
Trafnidiaeth	£33,980,000	£2,326,500	£132,649,783
Seilwaith	£13,135,577	£203,635	£14,275,076
Eiddo	£12,755	£107,033	£4,993,065
Cyfanswm	£61,995,315	£9,318,464	£226,047,359

³⁹ Llythyr at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 6 Mawrth 2018.